

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Huw De Lloyd Dentist

Dyddiad arolygu: 22 Hydref 2019

Dyddiad cyhoeddi: 23 Ionawr
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Huw De Lloyd Dentist yn 50 The Parade, Caerdydd CF24 3AB, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ar 22 Hydref 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod Huw De Lloyd Dentist yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd yr amgylchedd i'w weld yn lân ac yn daclus ac roedd prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau a rheoliadau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion, ac adlewyrchwyd hyn gan yr ymateb cadarnhaol i holiaduron AGIC
- Roedd pob rhan o'r safle yn ymddangos yn lân ac yn daclus
- Roedd cofnodion ardderchog yn cael eu cadw mewn perthynas â phob agwedd ar radiograffeg

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis fwrw golwg dros yr amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd sydd ar gael yn yr ardaloedd aros
- Dylai'r practis adolygu ei asesiad risg tân a'i drefniadau ar gyfer sicrhau parhad y busnes mewn argyfwng
- Rhaid i rai agweddau ar gadw cofnodion gael eu nodi'n glir yn nodiadau'r holl gleifion

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Nid oedd y practis wedi bod yn cynnal nac yn cofnodi gwiriadau rheolaidd (bob wythnos o leiaf) o'r cyfarpar dadebru, sef y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) a'r cit ocsigen.
- O ganlyniad, gwelsom rybudd ar y cyfarpar AED yn dangos bod y batri'n isel a gwnaethom gynghori'r practis i osod batri newydd yn ei le. Yn y cit ocsigen, roedd y llwybrau anadlu oroffaryngeal wedi mynd heibio i'w dyddiad defnyddio hefyd.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael

sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Huw De Lloyd Dentist yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

At ei gilydd, gwelsom fod Huw De Lloyd Dentist yn rhoi profiad cadarnhaol i'r cleifion yn y practis a gwelsom fod prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Gwelsom enghreifftiau proffesiynol a chyfeillgar o ryngweithio â'r cleifion drwy gydol y broses arolygu.

Er mwyn gwella ansawdd profiad y cleifion, rydym yn argymhell bod y practis yn bwrw golwg dros ei amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd ac yn ystyried ffyrdd o arddangos canlyniadau unrhyw adborth a roddir gan y cleifion.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Archwiliad trylwyr iawn a digon o amser ar gyfer pob esboniad/penderfyniad"

"Rwyf bob amser wedi cael fy nhrin â pharch, urddas a charedigrwydd. Mae hwn yn bractis ardderchog. Byddwn yn ei argymhell"

"Ymagwedd broffesiynol iawn ac esboniadau da am bob triniaeth. Awyrgylch digynnwrf"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y cleifion yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir, ond cafwyd sylwadau fel:

"Cadeiriau mwy cyfforddus yn yr ystafell aros"

"Rhyngrwyd am ddim i'r cleifion. Mwy o dechnoleg ar gyfer trefnu apwyntiadau, gwasanaethau rhyngweithiol ac ati"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth fach o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen wrth iddynt aros. Efallai yr hoffai'r practis ystyried diweddarau ac ehangu'r deunydd sydd ar gael i gynnwys meysydd fel rhoi'r gorau i smygu, a darparu digon o gopiâu fel y gall y cleifion fynd â nhw adref gyda nhw i'w darllen yn eu hamser eu hunain.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis fwrw golwg dros y deunydd hybu iechyd sydd ar gael yn yr ardaloedd aros.

Gofal ag urddas

Gwelsom amrywiaeth o staff yn siarad â chleifion yn bersonol a dros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Gwelsom hefyd fod drws y ddeintyddfa ar gau bob amser wrth i'r cleifion gael triniaeth. Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y staff, pe bai claf am gael sgwrs breifat yna gallai hyn ddigwydd yn un o'r deintyddfeydd a oedd ar gael.

Roedd polisi cyfrinachedd a diogelu data cynhwysfawr ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd hwn yn ymdrin â materion megis diogelu manylion cleifion, cael gafael ar gofnodion a datgelu gwybodaeth i drydydd partiön.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod y cleifion yn

ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd pob un ohonynt hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Gwelsom fod rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa, yn ogystal â manylion i gleifion sy'n rhan o'r cynllun deintyddol. Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd copïau o daflen wybodaeth y practis i gleifion ar gael yn ardal y dderbynfa er mwyn i'r cleifion eu darllen. Roedd nifer o bolisiau'r practis, fel y weithdrefn gwyno, hefyd wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gwelsom fod y practis yn arddangos enwau a chymwysterau pob aelod o'r tîm deintyddol mewn ardal lle roedd yn hawdd i'r cleifion eu gweld, fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y mwyafrif o'r wybodaeth sydd ar gael yn y practis, gan gynnwys posteri, taflenni ac arwyddion, yn Saesneg. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym na chafwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth mewn unrhyw iaith nac ar unrhyw fformat arall. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i nodi anghenion cyfathrebu claf cyn ei apwyntiad cyntaf a rhoi trefniadau ar waith pe bai cais yn dod i law.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopi o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod ei daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos mewn man amlwg i'r cleifion ei darllen.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi pan fyddent yn cyrraedd, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Gwelsom fod manylion am sut i gael gafael ar ofal brys y tu allan i oriau wedi'u harddangos y tu allan i'r practis a dywedwyd wrthym fod yr un wybodaeth ar gael i'r cleifion ar system peiriant ateb y practis. Roedd y manylion hyn yn cynnwys rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth gofal deintyddol brys y tu allan i oriau. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Mae hyn yn ofynnol gan ganllawiau proffesiynol i helpu deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi'r feddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf. Yn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod hanes meddygol cleifion yn cael ei gofnodi yn briodol yn eu cofnodion.

Roedd y driniaeth a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal yn ei ddatganiad o ddiben, sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael triniaeth deg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd y polisi'n cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i bob claf, beth bynnag fo'i nodweddion gwarchodedig¹.

Roedd gan y practis bolisi cleifion newydd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd i'r practis. Roedd copi o'r polisi ar gael i ddarpar gleifion ei weld ar gais.

O ran mynediad ffisegol, roedd modd parcio ar y stryd y tu allan i'r eiddo. Dim ond ar y llawr gwaelod y mae'r practis, felly mae'n addas i gleifion â symudedd cyfyngedig.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis yn dewis cleifion ar hap ac yn gofyn iddynt gwblhau ffurflen adborth a'i rhoi mewn blwch adborth yn yr ardal aros. Clywsom y gall y cleifion gyflwyno ffurflenni'n ddienw os ydynt yn dymuno. Dywedodd staff y practis wrthym hefyd fod unrhyw adborth llafar gan gleifion yn cael ei gofnodi yn ffeiliau'r cleifion er mwyn sicrhau bod yr adborth hwn yn cael ei nodi a bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb iddo.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd, bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb iddo a bod data'n cael eu dadansoddi'n flynyddol. Fodd bynnag, ni welsom fod gan y practis system ar waith i ddangos canlyniadau'r adborth hwn i'r cleifion. Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno system, fel arddangosfa 'dywedo chi, gwnaethom ni', er mwyn dangos gwersi a ddysgwyd a gwelliannau ac arddangos unrhyw sylwadau cadarnhaol a gafwyd ar adborth.

Roedd y weithdrefn ffurfiol i'w dilyn gan gleifion a oedd am wneud cwyn neu godi pryder am eu gofal, wedi'i hamlinellu mewn polisi cwynion, a oedd i'w weld

¹ Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig. <https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn galluogi'r staff i ymdrin ag unrhyw gwynion o'r fath yn effeithiol ac yn amserol ac roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis roi system ar waith i arddangos canlyniadau adborth i'r cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

At ei gilydd, roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod y practis yn lân ac mewn cyflwr da, a bod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella er mwyn hybu gofal diogel ac effeithiol yn llwyr.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas at y diben.

Roedd y dderbynfya a'r ardaloedd aros yn groesawgar, yn daclus ac yn ddi-rwystr. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn fodern ac mewn cyflwr da.

At ei gilydd, gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r practis yn ddigonol pe byddai tân:

- roedd dau aelod o staff y practis wedi cael hyfforddiant tân yn ddiweddar
- roedd y dyfeisiau diffodd tân ym mhob rhan o'r practis wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd contract cynnal a chadw cyfarpar ar waith

- roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng.

Fodd bynnag, er bod asesiad risg tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a bod y practis wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd, roedd yr asesiad risg yn cynnwys nifer o gamau gweithredu nad oeddent wedi cael eu cwblhau. Er mwyn lleihau'r risg o dân ac amddiffyn pawb ar y safle, rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r camau gweithredu yn briodol, gan gymryd camau rhesymol i gyflawni unrhyw argymhellion a wnaed.

Roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am ddeddfwriaeth mangreodd di-fwg. Roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis er mwyn hysbysu'r staff am y ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Roedd y prif ddeintydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw unigolion neu gleifion yn y practis yn briodol.

Gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn nodi rhai o'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gall y practis barhau i weithredu'n ddiogel os bydd argyfwng neu drychineb naturiol. Argymhellwn fod y practis yn gwella'r polisi hwn er mwyn sicrhau ei fod wedi ystyried ei drefniadau parhad busnes yn drylwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r camau gweithredu a restrir yn ei asesiad risg tân.

Rhaid i'r practis adolygu a gwella ei bolisi a'i drefniadau parhad busnes.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05². Roedd yr ystafell

² Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

ddihalogi ddynodedig i'w gweld yn lân ac yn dilyn llwybr dihalogi budr i lân. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom fod cylchoedd yr awtoclaf yn cael eu cofnodi'n briodol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gofnodlyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol priodol er mwyn sicrhau bod cyfarpar sterileiddio, gan gynnwys y bath uwchsain, yn gweithio'n gywir ac yn bodloni'r gofynion dilysu. Roedd hyn hefyd yn cynnwys tystiolaeth o dystysgrif arolygu gwaith cynnal a chadw dilys.

Gwelsom hefyd y gallai'r staff ddefnyddio blychau diogel i gludo offerynnau glân ac offerynnau wedi'u defnyddio, er mwyn helpu i atal croes-heintio. Gwnaethom hefyd nodi bod gan y practis ddulliau ac adnoddau priodol i sicrhau bod yr offerynnau'n cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn gywir fel rhan o'r broses ddihalogi gyffredinol. Gwelsom fod yr holl offerynnau wedi'u cadw mewn bagiau priodol a bod stamp dyddiad arnynt o fewn amrediad derbyniol.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel ac roedd y gwastraff hwn yn cael ei storio'n ddiogel.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd toiledau staff a chleifion, a chyfleusterau newid ar gael yn y practis. Gwelsom fod biniau cynhyrchion mislif priodol ar gael yn y toiled. Roedd digon o le hefyd i'r staff storio eitemau personol yn y practis.

Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y cyfarpar brys, gan gynnwys y cit dadebru a'r cyffuriau brys, a oedd ar gael yn y practis. Gwelsom nad oedd y practis wedi bod yn cynnal nac yn cofnodi gwiriadau rheolaidd (bob wythnos o leiaf) o'r cyfarpar dadebru, sef y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) a'r cit ocsigen, er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gyflawn, mewn cyflwr da ac nad yw'r eitemau wedi mynd heibio i'w dyddiadau defnyddio unigol.

O ganlyniad, gwelsom rybudd ar y cyfarpar AED yn dangos bod y batri'n isel a gwnaethom gynghori'r practis i osod batri newydd yn ei le. Yn y cit ocsigen,

roedd y llwybrau anadlu oroffaryngeal wedi mynd heibio i'w dyddiad defnyddio hefyd.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r materion hyn yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi cael trafferth cael gafael ar y cyffur, midazolam, ond, ar ôl ymgynghori, cadarnhaodd ei fod wedi gwneud archeb drwy gyflenwr arall ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r practis wedi cadarnhau i AGIC bod y cyffur wedi cyrraedd a'i fod wedi ei gynnwys yn ei becyn cyffuriau.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn³, er mwyn helpu'r MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt er mwyn i'r staff roi gwybod yn briodol i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Y rheolwr cofrestredig oedd arweinydd diogelu y practis, a oedd yn gyfrifol am oruchwylio materion diogelu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gwybodaeth am faterion diogelu yn cael ei rhannu drwy sesiynau sefydlu a

³ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

hyfforddiant. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol ac anghlinigol wedi cael hyfforddiant ffurfiol i lefel briodol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn y deintyddfeydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Cawsom olwg ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a gwelsom fod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio
- Roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol⁴ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y cyfyngir ar amlygiad staff i ymbelydredd
- Roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad yn cael ei gynnal bob blwyddyn i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) 01-05 ar ddihalogi, a bod y newidiadau a argymhellwyd yn dilyn yr archwiliad hwn wedi cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, nodwyd y cafodd yr archwiliad diweddaraf ei gynnal gan ddefnyddio'r adnodd archwilio ar gyfer Lloegr yn unig, yn hytrach nag adnodd archwilio

⁴ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

WHTM a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer practisau deintyddol yng Nghymru. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn defnyddio'r archwiliad WHTM cywir yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw fesurau sy'n benodol i Gymru.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis gynnal mwy o weithgareddau archwilio, fel cadw cofnodion cleifion a rhoi'r gorau i smygu, er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r triniaethau a ddarperir ymhellach.

Rydym hefyd yn argymhell bod y practis yn cynnal adolygiad cymheiriaid clinigol er mwyn bodloni gofynion DPP yn llawn ac i nodi meysydd lle y gellir gwneud newidiadau gyda'r nod o wella ansawdd y gwasanaeth a gynigir i gleifion.

Dylai'r practis hefyd ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwellu Iechyd Cymru⁵ sy'n annog timau practisau deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o bolisi cydsynio a oedd yn amlinellu sut roedd y practis yn asesu cydsyniad cleifion a'r capasiti ar gyfer triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal gweithgareddau archwilio ychwanegol, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid, er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r triniaethau a ddarperir ymhellach.

Rhaid i'r practis weithredu polisi archwilio clinigol i gefnogi'r argymhelliad uchod.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu a diogelwch data ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

⁵ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n electronig ar gyfrifiaduron a ddiogelir gan gyfrinair. Caiff copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig eu gwneud yn rheolaidd a'u cadw oddi ar y safle fel y gellir cael gafael ar y data gwreiddiol os oes angen.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, roedd cofnodion da yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, sy'n cefnogi'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i'r cleifion. Y rheswm am hyn yw bod yr holl gofnodion cleifion a welsom yn cynnwys y canlynol:

- hanes meddygol a deintyddol cychwynnol a mwy diweddar, gan gynnwys: rhesymau dros apwyntiadau, symptomau, hylendid y geg a deiet
- siartiau sylfaenol llawn a chofnodion BPE (periodontol sylfaenol)
- cofnodion o archwiliadau o feinweoedd meddal y tu mewn a'r tu allan i'r geg
- canfyddiadau ardderchog ym mhob agwedd ar radiograffeg, fel cyfiawnhad, canfyddiadau clinigol a graddau ansawdd.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai anghysondebau yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod yr agweddau canlynol yn cael eu cynnwys a'u cofnodi'n glir bob amser:

- cydsyniad ar sail gwybodaeth: er i ni weld tystiolaeth bod y practis yn gofyn am gydsyniad i driniaeth, nid oedd hyn wedi'i gofnodi'n glir ym mhob un o'r nodiadau cleifion a welsom
- sgrinio ar gyfer canser y geg: er i'r practis ddweud ei fod yn gwneud hyn wrth archwilio meinweoedd meddal cleifion, nid oedd y broses sgrinio hon wedi'i chofnodi'n glir ym mhob un o'r nodiadau cleifion a welsom
- adalw, yn unol â chanllawiau NICE
- asesiadau risg, fel pydredd, clefyd periodontol a chanser y geg
- y triniaethau sydd ar gael i'r cleifion

Gwelsom fod nodiadau cyfrifiadurol cleifion yn glir a bod copïau wrth gefn priodol yn cael eu cadw ohonynt. Nodwyd hefyd fod y practis yn cadw nifer o gofnodion papur ar gyfer cleifion, sy'n dyblygu ymdrechion ac yn gallu arwain at

anghysondebau rhwng cofnodion. Byddem yn cyngori'r practis i gadw cofnodion cleifion cyfrifiadurol lle bo hynny'n bosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda, yn ôl pob golwg, ac roeddent yn cael cyfleoedd hyfforddi priodol i'w galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau rheoli da. Fodd bynnag, dylai'r practis ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd er mwyn helpu i fonitro a sicrhau ansawdd gofal y cleifion a gwaith effeithiol y tîm ymhellach.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Huw De Lloyd Dentist, ac ef yw'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig hefyd. Caiff y practis ei gefnogi gan dîm bach o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd dystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Ar adeg yr arolygiad, roedd newidiadau staffio'n digwydd yn y practis ac, o ganlyniad, roedd y prif ddeintydd (sydd hefyd yn rheolwr cofrestredig y practis) yn cyflawni llawer o ddyletswyddau yn y practis. Ar ôl i'r tîm ymsefydlu yn y practis, byddem yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig, lle bo hynny'n briodol, yn dirprwyo tasgau a chyfrifoldebau penodol i aelodau o'r tîm ehangach.

Fel y nodwyd, byddem wedyn yn argymhell bod y practis yn ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd er mwyn helpu i fonitro a sicrhau ansawdd gofal y cleifion a gwaith effeithiol y tîm ymhellach.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisiâu wedi cael eu hadolygu'n

rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a bod y staff wedi cael gwybod amdanynt yn ystod eu proses sefydlu.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn ymarfer, ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Gwnaethom nodi bod tystysgrifau wedi'u harddangos, sy'n dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

At ei gilydd, roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontract cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Caiff aelodau newydd o'r staff sesiynau sefydlu a chyfnod prawf.

Cadarnhaodd y practis fod y staff yn cael arfarniadau o leiaf unwaith y flwyddyn a'u bod wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Er i ni weld bod hyfforddiant DPP yn gyfredol, byddem yn cynghori'r practis i sicrhau bod ffeiliau'r staff a'u cofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw a'u trefnu'n briodol er mwyn dangos yn glir eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol perthnasol a'r gofynion perthnasol o ran hyfforddiant.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd practis rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r staff i nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwysedig yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen defnyddio nyrsys deintyddol sy'n gweithio i asiantaethau.

Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o'r staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair

blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a staff eraill.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban (lleisio barn) ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Roedd y polisi'n cynnwys trefniadau cyfeirio clir ar gyfer codi pryderon yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys AGIC.

Gwelsom fod gan y practis bolisi anafiadau nodwydd ar waith, gan gynnwys protocol ar gyfer anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog, y dylid ei ddilyn pe bai yna anaf yn ymwneud â chyfarpar miniog. Yn ôl y polisi, mae cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r practis drwy ysbyty lleol. Fodd bynnag, o ystyried bod y practis yn gwbl breifat, rydym yn cynghori'r practis i gadarnhau yn ysgrifenedig bod y trefniadau hyn ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol ar gael o hyd i'r practis.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Huw De Lloyd Dentist

Dyddiad arolygu: 22 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r gwasanaeth gynnal gwiriadau wythnosol (o leiaf) o'r cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys a dogfennu'r gwiriadau hynny fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU) er mwyn monitro lefelau stoc, cyflwr cyfarpar a sicrhau bod yr holl gyffuriau a chyfarpar o fewn eu dyddiadau dod i ben unigol o hyd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(2)a Rheoliad 31(3)b	Rhestrau gwirio dydd Gwener: - Ocsigen - Cyffuriau Brys - Diffibriliwr Mae'r rhestr wirio sy'n nodi cyffuriau a chyfarpar fesul eitem wedi cael ei diweddaru	Huw De Lloyd	Ar waith
Rhaid i'r gwasanaeth archebu a gosod batri newydd yn y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol pe bai	Fel uchod	Batri wedi'i archebu a'i osod	Huw De Lloyd	Cwblhawyd

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
argyfwng meddygol.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Huw De Lloyd

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 30/10/2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Huw De Lloyd Dentist

Dyddiad arolygu: 22 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis fwrw golwg dros y deunydd hybu iechyd sydd ar gael yn yr ardaloedd aros	Safonau Iechyd a Gofal 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd;	Byddwn yn arddangos deunydd hybu iechyd mewn man mwy amlwg yn yr ystafell aros. Ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi hyrwyddiadau drwy ein haelodaeth o Denplan, sy'n cyflenwi posteri ac ati sy'n targedu negeseuon hyrwyddo ar adegau penodol o'r flwyddyn. Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am glefyd y deintgig, smygu, canser y geg, deiet a gofal a hylendid ataliol.	Huw de Lloyd	Mae'r broses hon ar waith ar hyn o bryd
Rhaid i'r practis sicrhau bod ei daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos mewn man	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Rydym wedi cadw copi yn y dderbynfa ac rydym yn rhoi copi i bob claf newydd sy'n dod i'r practis er mwyn ei helpu i	Huw de Lloyd	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
amlwg i'r cleifion ei darllen.	2017 A 6(3)	ymgyfarwyddo. Rydym wedi argraffu copi arall sydd ar gael yng nghanol ein hystafell aros gyda deunydd darllen arall.		
Rhaid i'r practis roi system ar waith i arddangos canlyniadau adborth i'r cleifion.	Safonau Iechyd a Gofal 6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth	Rydym yn cynnal yr ymarfer hwn bob blwyddyn ac mae'r canlyniadau ar gael am fis wedi hynny yn yr ystafell aros. Byddwn yn ymestyn hyn fel bod y canlyniadau ar gael drwy gydol y flwyddyn, yn unol â'r cyfarwyddyd	Huw de Lloyd	ar unwaith
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r camau gweithredu a restrir yn ei asesiad risg tân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Gosod golau argyfwng yn y dderbynfa/ystafell aros ar y llawr gwaelod (nid ystyriwyd bod angen gwneud hyn yn y gorffennol pan wnaed gosodiadau eraill mewn rhannau eraill o'r adeilad) ond argymhellwyd y dylid gwneud hyn yn yr asesiad risg tân diweddaraf	Huw de Lloyd	Mawrth 2020
Rhaid i'r practis adolygu a gwella ei bolisi a'i drefniadau parhad busnes.	a 22(4) (f) a 8(1)(o)		Huw de Lloyd	
Dylai'r practis gynnal gweithgareddau archwilio	Rheoliadau	Nid oedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd	Huw de Lloyd	Ymrwymedig

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ychwanegol, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid, er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r triniaethau a ddarperir ymhellach. Rhaid i'r practis weithredu polisi archwilio clinigol i gefnogi'r argymhelliad uchod	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a 16(1) (a) a 8(1) (n)	bob amser yn ymwneud â Chanllawiau Cymru, ond byddwn yn sicrhau eu bod.		i sicrhau ansawdd y triniaethau a ddarperir yn barhaus
Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol	Safonau Iechyd a Gofal 3.5 Cadw cofnodion;	Bydd y practis yn dechrau rhoi'r gorau i ddefnyddio cofnodion papur ar y cyd â'n cofnodion cyfrifiadurol ar gyfer cleifion	Huw de Lloyd	O fis Ebrill

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Huw de Lloyd

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 12/12/2019